TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# AAT Diploma mewn Cyfrifyddu (Cymhwyster Llawn) Lefel 3



**Yn gryno**

Mae'r cwrs yma yn olynu AAT Tystysgrif mewn Cyfrifeg Lefel 2 bydd yn eich galluogi i gael sgiliau pellach i fynd ymlaen yn y byd cyfrifeg.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Ydych wedi cwblhau cwrs AAT Tystysgrif mewn Cyfrifeg Lefel 2

... Ydych eisiau gwella eich sgiliau a gwybodaeth am y maes cyfrifeg

... Ydych eisiau gweithio yn y byd cyfrifeg.

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Cynigir y cwrs llawn amser proffesiynol Cymdeithas y Technegwyr Cyfrifeg (AAT) mewn nifer cyfyngedig o leoedd ar draws de Cymru.

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Bydd y cwrs yn ymdrin ag ystod o dasgau cyfrifeg cymhleth, gan gynnwys cynnal cofnodion cyfrifeg cost a pharatoi adroddiadau ac enillion. Mae themâu allweddol drwy gydol y cymhwyster yn cynnwys technoleg, moeseg, cynaliadwyedd a chyfathrebu.

Mae'r cymhwyster hwn yn cynnwys pedair uned hanfodol:

• Ymwybyddiaeth Busnes

• Cyfrifyddu Ariannol: Paratoi Datganiadau Ariannol

• Technegau Cyfrifeg Rheoli

• Prosesau Treth ar gyfer Busnesau

Mae'r ddwy uned yn cael eu hasesu'n unigol drwy asesiadau diwedd uned ar gyfrifiadur.

Byddwch yn cael y cymwyster canlynol:

Lefel 3 AAT mewn Cyfrifeg
Gweithgareddau Sgiliau
Cymwysterau perthnasol eraill i fwyhau eich set o sgiliau

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Er mwyn cael eich derbyn ar y cwrs yma, bydd rhaid i chi gael eich cyflogi yn y diwydiant a gallu dangos sgiliau perthnasol (yn unol â rhestr wirio AAT ar gyfer mynediad uniongyrchol) neu gwblhau Diploma Lefel 2 mewn Cyfrifeg a Busnes.

Bydd angen i chi ymrwymo'n llawn i fod yn bresennol, parchu eraill, dangos brwdfrydedd am y pwnc a chael hunan-gymhelliant. Cewch eich asesu'n barhaus a byddwch yn parhau â'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn eich amser eich hun.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Diploma AAT Lefel 4 mewn Cyfrifyddu Proffesiynol, y gallwch ei astudio'n llawn amser neu'n rhan amser yn Coleg Gwent.
Ar ôl cwblhau'r cymhwyster, gall myfyrwyr ymgymryd yn llwyddiannus â rôl ym maes cyllid.

Gallai sgiliau a ddatblygir drwy'r cymhwyster hwn arwain at gyflogaeth fel:

- Cynorthwyydd Cyfrifon
- Goruchwyliwr Cyfrifon Taladwy a Chostau
- Cyfrifydd Ariannol Cynorthwyol
- Archwilydd dan Hyfforddiant
- Rheolwr Credyd
- Cynorthwyydd Cyllid
- Swyddog Cyllid
- Goruchwyliwr Cyflogres
- Uwch Geidwad Cyfrifon
- Cynorthwyydd Treth.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

I astudio cwrs AAT, mae angen i chi gofrestru â'r AAT fel myfyriwr. Bydd angen i chi gofrestru gydag AAT am gost o tua £230. Bydd angen i chi gofrestru gyda'r coleg hefyd.

Bydd angen i chi brynu llyfrau gwaith, a fydd yn costio tua £150.